



Cystadleuaeth Ffilm Fer yr Ŵyl Serameg Ryngwladol

Yn 2019 mae'r Ŵyl Serameg Ryngwladol (ICF) yn cyflwyno elfen o ffilm i mewn i'w rhaglen. 'Rydym yn gwahodd ceisiadau oddi wrth wneuthurwyr ffilm/artistiaid aml-ddisgyblaethol am ffilmiau byrion sy'n ffocysu'n bennaf ar serameg e.e. ffilmiau ynglyn â'r proses o greu serameg; ffilmiau am grochendai neu seramegyddion fel y prif bwnc, neu ddelweddau symudol/animeiddiad lle nodweddir serameg neu glai yn bennaf. Dyma gyfle cyffrous i ddangos eich gwaith i gynulleidfa o dros 1000 o bobl mewn gŵyl gelfyddydol sefydledig sydd â phroffil uchel yn y cyfryngau.

Ymgeisiwyr:

Mae'r gystadleuaeth yn agored i oedolion dros 18 oed o bob rhan o'r byd.

Y Proses Ymgeisio:

Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais gan gynnwys dolen i wyllo eu ffilm ar safle fideo megis Cinando, Vimeo neu YouTube. Os ydych yn cael eich dewis fe ofynnir i chi gyflwyno copi electronig o'ch ffilm ar fformat MP4.

Meini prawf:

1. Rhaid i ffilmiau fod yn 15 munud o hyd neu'n fyrrach.
2. Rhaid bod y ffilm wedi'i gwneud o fewn y 3 blynedd diwethaf h.y. rhwng Ionawr 2015 a dyddiad cau'r gystadleuaeth (01/05/2019).
3. Ar fformat MP4.
4. Is-deitlau os nad yw'r ffilm yn yr iaith Saesneg.
5. Rhaid i'r ymgeisydd feddu ar hawlfraint y ffilm a chaniatâd i ddefnyddio unrhyw drac sain/cerddoriaeth a nodweddir ynddi.
6. Rhaid i'r ffilm fod yn addas i'w gwyllo gan y cyhoedd yn gyffredinol.

Dangosir detholiad o ffilmiau (6-10, efallai mwy) yn ystod penwythnos yr Ŵyl Serameg Ryngwladol 2019 yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, mewn man sgrinio penodol. Dewisir yr enillydd gan bwylgor, noddwyr a chynulleidfa'r Ŵyl.

Y dyddiad cau am geisiadau yw canol nos ar 1^{af} o Fai 2019

Cwblhewch y ffurflen gais os gwelwch yn dda a'i dychwelyd trwy'r e-bost gyda'r teitl 'Cystadleuaeth Ffilm Fer Gŵyl Serameg Ryngwladol 2019' at:

Louise Chennell e-bost: loc@aber.ac.uk

Dangosir yr holl geisiadau detholedig yn ystod Gŵyl 2019 a bydd yr enillydd terfynol yn derbyn 1 docyn penwythnos ar gyfer Gŵyl 2021.

Ffurflen Gais yr Wyl Serameg Ryngwladol

Enw'r ymgeisydd	
Perthynas â ffilm	
Dyddiad geni	
Cyfeiriad	
E-bost	
Rhif Ffôn	
Teitl y ffilm	
Gwlad/ Gwledydd	
Y flwyddyn y gwnaethpwyd y ffilm	
Amser rhedeg	
Crynodeb byr	
Gwefan y ffilm	
Cyfarwyddyd ar anfon eich ffilm yn defnyddio gwefan fideo (YouTube, Cinando, Vimeo etc.) I gyflwyno eich ffilm trwy wefan fideo, gadewch i ni wybod beth yw'r ddolen berthnasol ac unrhyw gyfrineiriau sydd eu hangen arnom er mwyn gwyllo eich fideo.	

<p>'Rydym yn addo trin eich manylion yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ac ni throsglwyddir eich manylion i drydydd bartion heb eich caniatâd. Pe bai dosbarthwyr, asiantiaid, cwmnïau sy'n gysylltiedig â ffilm neu arddangoswyr yn cysylltu â ni, a ydych yn hapus i ni roi eich manylion cyswllt iddynt?</p>	Ydw	Nac ydw
<p>Os ydych yn cyflwyno ffilm fer a'i bod yn cael ei dewis ar gyfer y gystadleuaeth derfynol, a ydych yn rhoi'ch caniatâd iddi gael ei dangos eto fel rhan o weithgareddau'r Wyl yn y dyfodol ?</p>	Ydw	Nac ydw
<p>Ticiwch y blwch os gwelwch yn dda os ydych yn cytuno â'r datganiad: "Rwy'n cytuno i fy ffilm gael ei dangos yn ystod Gŵyl Serameg 2019 yng Nghanolfn y Celfyddydau Aberystwyth. Cytunaf y gellir defnyddio delweddau, dolenni safleoedd fideo etc. at bwrpasau cyhoedduswydd."</p>	Cytuno	Anghytuno
<p>Sut ydych yn disgrifio'ch hun? (ticiwch o leiaf un).</p>	Myfyriwr	
	Gwneuthurwr ffilm	
	Seramegydd	
	Artist aml-ddisgyblaethol	
	Arall	
<p>Defnyddiwch y blwch hwn i roi rhagor o wybodaeth i ni amdanoch chi'ch hun (200 o eiriau).</p>		